# Cofnodion

## Cyngor

Dyddiad: Dydd Mawrth, 26 Tachwedd 2019

Amser: 5.00 pm

Bresennol: Cynghorwyr J Cleverly, P Cockeram, M Cornelious, D Davies, M Evans, D Fouweather, G Giles, J Guy, D Harvey, I Hayat, Councillor R Jeavons, M Kellaway, M Linton, D Mayer, Councillor J Mudd, M Rahman, J Richards, T Suller, H Thomas, K Thomas, C Townsend, Councillor R Truman, R White, K Whitehead, D Wilcox, D Williams, G Berry, J Clarke, V Dudley, Y Forsey, R Hayat, P Hourahine, J Hughes, J Jordan, L Lacey, S Marshall, W Routley, H Townsend and J Watkins

Ymddiheuriadau: Cynghorwyr K Critchley, M Al-Nuaimi, C Evans, C Ferris, C Jenkins, R Mogford, A Morris, M Spencer, T Watkins, M Whitcutt and T Holyoake

---

1. **Rhagofynion**

   i. **Derbyn ymddiheuriadau am absenoldeb**

   Cafwyd ymddiheuriadau gan y Swyddog Monitro am absenoldeb.

   ii. **I dderbyn datganiadau o fuddiant.**

   Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

   iii. **I dderbyn unrhyw gyhoeddiadau gan y Maer**

   Cyhoeddodd y Maer fod y Farwnes Wilcox yn sefyll i lawr fel Arweinydd y Cyngor i ymgymryd â'i rôl yn Nhŷ'r Arglwyddi. Diolchodd yn ffurfiol iddi ar ran y Cyngor am ei gwaith caled fel Arweinydd a chyflwynwyd anrhegion iddi gan y Prif Weithredwr ar ran uwch swyddogion a chan y Cynghorydd Mudd ar ran yr aelodau etholedig, fel arwydd o'u gwerthfawrogiad.

2. **Cofnodion**

   Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Medi 2019 fel cofnod cywir.

3. **Penodiadau**

   Enwebwyd y Cynghorydd Jane Mudd gan y Cynghorydd Farwnes Wilcox; eiliwyd hyn gan y Cynghorydd R Truman.  Datganwyd diddordeb gan y Cynghorydd Mudd yn yr eitem, heb unrhyw newidiadau.

   **Penderfynwyd:** Cafodd y Cynghorydd Jane Mudd ei phenodi’n unfrydol yn Arweinydd y Cyngor.

(a) Ystyried unrhyw benodiadau eraill

Yna, cyhoeddodd Arweinydd y Cyngor, y Cynghorydd Jane Mudd, ei phenodiadau Cabinet fel a ganlyn:-

Y Cynghorydd Jeavons – Dirprwy Arweinydd
Cynghorydd Rahman – Aelod Cabinet dros Asedau
Y Cynghorydd Davies – Aelod y Cabinet dros Ddatblygu Cynaliadwy.

*Holodd y Cynghorydd C Townsend am gost y swydd ychwanegol, fodd bynnag, nodwyd nad oedd unrhyw swyddi ychwanegol yn cael eu creu yn y Cabinet, er bod y portffolios a theitlau Aelodau'r Cabinet wedi newid*

Yna cynigiodd yr Arweinydd, a chafodd ei eilio gan y Cynghorydd Jeavons, y dylid penodi'r Cynghorydd Hughes yn Gadeirydd newydd y Pwyllgor Trwyddedu. Nid oedd unrhyw welliannau nac enwebiadau pellach.

**Penderfynwyd:** bod y Cynghorydd Hughes yn cael ei benodi'n Gadeirydd y Pwyllgor Trwyddedu

(b) Ystyried y penodiadau arfaethedig a nodir yn yr adroddiad

Cynigiodd y Cynghorydd Harvey y penodiadau a nodir yn yr adroddiad, fel y cytunwyd gan y rheolwyr Busnes, yn amodol ar y newidiadau canlynol

Penodwyd Mrs Beverly Perkins yn Llywodraethwr AALl yn Ysgol Gynradd y Gaer, yn lle'r Cynghorydd Ibrahim Hyatt.

Y Cynghorydd Ibrahim Hayat i gael ei ddisodli fel Llywodraethwr AALl ym Mharc Tredegar, a'i benodi'n Llywodraethwr AALl ar gyfer Ysgol Gyfun Gwent Is-coed.

Yn amodol ar y diwygiadau hyn, cafodd y penodiadau eu cynnig a'u heilio;

Cyfeiriodd y Cynghorydd Whitehead at benodiad Llywodraethwr Ysgol Uwchradd Casnewydd ac awgrymodd nad oedd cynrychiolaeth gan Aelodau Ward y Betws. Roedd y rhieni wedi gofyn i aelodau'r ward gynrychioli'r preswylwyr.
Mewn ymateb, soniodd y Cynghorydd Harvey fod y Cynghorydd Whitehead yn sefyll i lawr fel Llywodraethwr Ysgol Uwchradd Casnewydd fel y gallai un o'i gydweithwyr ar y ward gymryd swydd.

Parthed yr eitem hon, roedd y rhan fwyaf o blaid y cynnig a'r penodiadau arfaethedig gyda phedwar yn ymatal.

**Penderfynwyd:** Bod y penodiadau canlynol yn cael eu cytuno.

| **Corff Llywodraethu** | Penodiadau | **Enwebiadau a Dderbyniwyd/Swydd Wag** |
|---|---|---|
| Ysgol Gynradd Glan Llyn | Llywodraethwr ALl<br>Llywodraethwr ALl<br>Swyddog | Y Cynghorydd Kelloway<br>Neil Davies<br>Howard Mason |
| Ysgol Gynradd y Gaer | Llywodraethwr ALl | Beverley Perkins |
| Ysgol Gyfun Gwent Is-Coed | Llywodraethwr ALl | Cynghorydd I Hayat |
| Ysgol Gynradd Pilgwenlli | Llywodraethwr ALl | Cynghorydd I Hayat |

| | | |
|---|---|---|
| Ysgol Uwchradd John Frost | Llywodraethwr ALl | Kay Price |
| Ysgol Gynradd Glasllwch | Llywodraethwr ALl | Mr Allan Hyland |
| Ysgol Gynradd y Tŷ-du | Llywodraethwr ALl | Keith Martin |
| Ysgol Uwchradd Casnewydd | Llywodraethwr ALl | Richard Shuttleworth |
| Ysgol Uwchradd Caerllion | Llywodraethwr ALl | Owen James |
| Ysgol Ffederal Eveswell ac Ysgol Gynradd Somerton | Llywodraethwr ALl | Cynghorydd Berry (Ysgol Gynradd Eveswell)<br>Cynghorydd Guy (Ysgol Gynradd Somerton)<br>Alan Speight (Cadeirydd Llywodraethwyr Ysgol Gynradd Somerton ar hyn o bryd)<br>Ben Adams (ar hyn o bryd ar Gorff Llywodraethu Ysgol Gynradd Somerton) |
| Ysgol Gynradd Maendy | Llywodraethwr ALl | Anne Drewett |
| Ysgol Gynradd Parc Tredegar | Llywodraethwr ALl | Swydd Wag |

Yn ogystal â'r penodiadau uchod, hysbysodd y Cynghorydd Harvey’r Cyngor o'r angen i gytuno ar ollyngiadau ar gyfer absenoldebau Cynghorwyr, yn unol ag adran 85 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972:

**Penderfynwyd:**

(a) Cymeradwyo ac estyn absenoldeb y Cynghorydd Critchley am chwe mis arall
(b) cymeradwyo absenoldeb o chwe mis i'r Cynghorydd Holyoake

(i) Nodi penderfyniadau'r Is-bwyllgor Penodi yn ymwneud â phenodi swyddogion statudol dros dro penodi swyddogion statudol dros dro

Nododd y Cyngor Gofnodion yr Is-bwyllgor Penodiadau Prif Weithredwr Dros Dro ar 1 Hydref 2019 a mabwysiadodd a chadarnhau eu penderfyniad i benodi Sheila Davies fel Prif Weithredwr Dros Dro a Phennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig.

Cyhoeddodd y Maer mai'r Cyfarwyddwr Strategol Dros Dro ar gyfer Pobl fyddai Chris Humphrey, Pennaeth y Gwasanaethau Oedolion a Chymunedol, a fyddai'n ymgymryd â rôl statudol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol tra'n aros am benodiadau parhaol

**Penderfynwyd:**
Bod penodiadau'r swyddogion statudol dros dro yn cael eu mabwysiadu a'u dilysu.

4. **Materion yr Heddlu**

Rhoddodd yr Uwcharolygydd Mike Richards ddiweddariad byr ar weithgarwch ar draws y tri sector plismona yng Nghasnewydd.

- Roedd Tîm Canol y Ddinas yn deall pwysigrwydd Canol Dinas diogel a ffyniannus a'r effaith y byddai gweithgarwch gwrthgymdeithasol, cardota ymosodol ac anhwylderau cysylltiedig ag economi'r nos yn ei chael ynghlwm â hyn. Bu gostyngiad sylweddol o 50% mewn dwyn o siopau ac ethpwyd â phobl i'r ddalfa ynghyd â rhoi dedfrydau o garchar, a oedd yn ganlyniad cadarnhaol i fusnesau lleol. Roedd nifer cryfach o heddweision ar batrôl ar Ddydd Gwener a Sadwrn, gan ddod â'r heddlu i mewn o awdurdodau cyfagos, fel Sir Fynwy. Roedd ymgyrch Prevent wedi gweld nifer o ffyrdd dros dro yn cael eu cau yng nghanol y ddinas am gyfnod prawf dros y penwythnos a chafodd yr Heddlu adborth cadarnhaol gan berchnogion busnes. Roedd gosod bolardiau yng Nghanol y Ddinas hefyd yn cael ei ystyried fel mesur tymor hwy.

- Cafodd tîm Dwyrain Casnewydd ychydig fisoedd prysur gyda nos Galan Gaeaf a Noson Tân Gwyllt. Bu llawer o ymddygiad gwrthgymdeithasol a difrod i fysiau yn ddiweddar. Roedd y tîm yn ymrwymedig i ymyrryd yn gynnar ac atal. Roedd y timau'n ymweld ag ysgolion a'r prosiect Heddlu Bach yn cael canlyniad cadarnhaol. Roedd gorsaf Alway wedi agor yn ystod Calan Gaeaf gyda thema arswydus ac ymwelodd dros 100 o deuluoedd â'r orsaf. Cyhoeddwyd gwarant cyffuriau llwyddiannus yn Lilyswyry gyda gorchymyn cau ar un eiddo.

- Mae tîm Gorllewin Casnewydd wedi gweld safleoedd yn cael eu cau yn Pottery Terrace a Clarence Place yn ymwneud â gwerthu cyffuriau. Cynhaliwyd diwrnod gweithredu amlasiantaeth yng Nghanolfan Gymunedol Maesglas a bu'n llwyddiant mawr. Roedd yr heddlu'n parhau i fonitro'r defnydd o feiciau oddi ar y ffordd yn y Betws. Yn achos Allt-yr-ynn, roedd rhai'n cysgu allan ger Llys y Goron, ac roedd pedwar ohonynt wedi'u symud ymaith. Yn olaf, roedd dau fwrgleriaeth yn y Tŷ-Du yn ystod mis Hydref, lle cafodd cerbydau eu dwyn. Yn ffodus, gwnaed arestiadau gydag ymddangosiad llys yn yr arfaeth.

Cwestiynau gan Gynghorwyr:

Diolchodd y Cynghorydd Jeavons i'r Uwcharolygydd am y gwaith parhaus yn Llyswyry a gofynnodd a fyddai'r Heddlu'n cynorthwyo gyda'r tîm Gorfodaeth Parcio Sifil (GPS) ac yn gorfodi troseddau parcio troseddol, megis parcio peryglus y tu allan i ysgolion. Mewn ymateb, cynghorwyd eu bod yn cydweithio â swyddogion y GPS a'r Heddlu Bach; roedd menter ysgol newydd wedi bod yn ceisio addysgu gyrwyr yn ystod yr amser gadael yn yr ysgol, a oedd yn llwyddiant.

Gofynnodd y Cynghorydd Harvey i'r Uwcharolygydd ddiolch i'r Arolygydd Cawley am weithredu'n gyflym o ran galwadau dienw. Cafodd Gorsaf Heddlu Spooky dderbyniad da gan drigolion a gwnaed yr heddlu yn bobl o gig a gwaed unwait yn rhagor. Yr oedd un mater a godwyd gan y trigolion ynghylch dau ddyn; un â beic, a oedd yn galw ar breswylwyr a gofyn a allent newid eu nwy a thrydan. Cynghorodd yr Uwcharolygydd y byddai'n rhoi rhybudd i breswylwyr beidio ag ateb eu drysau yn y nos i unrhyw un a oedd yn edrych yn amheus.

Cyfeiriodd y Cynghorydd M Evans at Orchymyn gwarchod Mannau Cyhoeddus (GGMC) o ran cardota ynghylch pwyntiau arian parod a pheiriannau tocynnau ac a ellid ailedrych ar hyn gyda'r Heddlu. Roedd yr Uwcharolygydd wedi cytuno bod hyn yn her ac nid yn gyfyngedig i Gasnewydd, fodd bynnag, byddai'r Uwcharolygydd yn cyfarfod â'r Arolygydd i ofyn ei farn ar ddiwygio'r GGMC.

Soniodd y Cynghorydd Marshall am erthygl ddiweddar ar wefan y BBC yn ymwneud â meddu ar gyllyll/menter stopio a chwilio, a gofynnodd pa mor llwyddiannus oedd hyn yng Nghasnewydd, neu a oedd mesurau ataliol mwy effeithiol y gellid eu defnyddio. Dywedodd yr Uwcharolygydd ei fod yn ymwybodol o'r erthygl sy'n ymwneud ag ardal Heddlu De Cymru. Roedd stopio a chwilio yn adnodd pwysig er nad oedd problemau troseddau cyllyll yng Nghasnewydd yn sylweddol. Roedd yr Uwcharolygydd yn hapus i gyfarfod â'r Cynghorydd Marshall a rhoi ffigurau.

Rhoddodd y Cynghorydd Guy ffigurau ar droseddau'n ymwneud â'r cartref, a oedd wedi cynyddu o'r flwyddyn flaenorol a gofynnodd a oedd yr Heddlu'n cael yr hyfforddiant gofynnol ac yn cydgysylltu ag asiantaethau aml-asiantaeth i ddelio â'r broblem. Cynghorodd yr Uwcharolygydd ei bod yn anodd iawn i swyddogion ymchwilio i droseddau domestig; fodd bynnag, cafodd ei drin fel blaenoriaeth i'r Heddlu a'r Cyngor ac roedd yn uchel ar yr agenda ar gyfer hyfforddiant. Roedd hyb diogelu amlasiantaeth lwyddiannus ar waith i fynd i'r afael â thrais domestig.

Gofynnodd y Cynghorydd D Williams a oedd gwerthu blychau Ocsid Nitraidd yn cael ei reoleiddio a beth ellid ei wneud i atal plant rhag prynu'r rhain o siopau. Byddai'r Uwcharolygydd yn ymchwilio i hyn ac yn mynd yn ôl at y Cynghorydd.

Gofynnodd y Cynghorydd J Watkins am ddiweddariad ar y mater diogelwch a gofnodwyd gyda View Point yn Christchurch, yr adroddwyd arno yn y Cyngor diwethaf. Dywedodd yr Uwcharolygydd ei fod wedi trafod y mater heddiw gyda'r Arolygydd Cawley ond ni chafwyd unrhyw adroddiadau am ymddygiad gwrthgymdeithasol cynyddol.

Cyfeiriodd y Cynghorydd R Truman at y newid yn oriau'r Warden Diogelwch Cymunedol er mwyn caniatáu iddynt weithio yn ystod oriau golau ddydd. Bu hon yn ymgyrch lwyddiannus ac yn ystod mis Hydref, cafwyd 77 o hysbysiadau cosb penodedig am gŵn yn bawa, tipio anghyfreithlon a chardota ymosodol. Y gobaith oedd mai hon oedd y ffordd orau ymlaen ac roedd y Cyngor yn bwriadu parhau i weithio ar y cyd gyda'r swyddogion hyn a'r Heddlu i ddangos bod Canol Dinas Casnewydd yn lle diogel i ymweld ag ef a siopa ynddo. Cytunodd yr Uwcharolygydd a rhoddodd sicrwydd o'i gefnogaeth barhaus.

Gofynnodd y Cynghorydd Lacey i'r Uwcharolygydd ddiolch i'r Arolygydd Cawley am roi sylw i'r digwyddiadau bws diweddar a gofynnodd am i'r diweddariad gael ei drosglwyddo i'r preswylwyr i'w sicrhau bod y mater yn cael sylw. Byddai'r Uwcharolygydd yn monitro cynnydd yr ymddygiad hwn er na adroddwyd am unrhyw ddigwyddiadau yn ddiweddar.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Whitehead at ddigwyddiad, a ddigwyddodd yn y Betws y diwrnod hwnnw. Cynghorodd yr Uwcharolygydd y Cyngor ei fod ar y Ddyletswydd Aur a'i fod wedi defnyddio swyddogion gynnau i'r Betws ac er bod y digwyddiad wedi'i israddio, roedd yn well defnyddio swyddogion oedd â'r offer addas yn hytrach na swyddog ar ddyletswydd.

Diolchodd y Cynghorydd Forsey i'r swyddogion am gefnogi lansiad yr Heddlu Bach yn y Tŷ-Du a gofynnodd a oedd ysgolion eraill o fewn Casnewydd wedi mynegi diddordeb. Cytunodd yr Uwch-arolygydd fod hyn yn llwyddiant ysgubol, gan ddechrau mewn tair ysgol, ond ei fod bellach wedi'i ehangu i 13 o ysgolion a'i fod yn gynllun a oedd yn ehangu eto gyda rhagor o ysgolion i'w hychwanegu yn y flwyddyn academaidd newydd.

Gofynnodd y Cynghorydd Suller am ddiweddariad ar y 'boy racers' ym Maerun. Dywedodd yr Uwcharolygydd ei fod wedi cyfarfod â Chynghorydd Cymuned yn ddiweddar ac o ganlyniad roedd wedi gofyn i'r tîm lleol ffurfio grŵp amlasiantaeth i ddatrys y materion hyn. Roedd cylch gorchwyl i'w ddrafftio a oedd yn cynnwys y tîm Gorfodi Parcio Sifil i fynd i'r afael â'r broblem. Hefyd, Diolchodd y Cynghorydd Suller i'r Heddlu am eu gweithred mewn ymateb i dirlithriad ym Maerun yn ddiweddar.

5. **Adroddiad Blynyddol Cynllun Cydraddoldeb Strategol - 2018/19**

O dan y Ddeddf Cydraddoldeb (2010), roedd yn ofynnol i'r Cyngor adrodd yn flynyddol ar y cynnydd a wnaeth yn erbyn y naw Amcan Cydraddoldeb Strategol a gynhwysir o fewn ei Gynllun Cydraddoldeb Strategol. Roedd y Ddeddf Cydraddoldeb hefyd yn gofyn Awdurdodau Lleol i gyhoeddi data cydraddoldeb staff, a oedd yn yr adroddiad hwn hefyd.

Yr adroddiad hwn, a dderbyniwyd yn flaenorol gan y Cabinet, oedd y trydydd adroddiad blynyddol ar y cynnydd a wnaed gan Gyngor Dinas Casnewydd tuag at gyflawni'r Amcanion Cydraddoldeb a nodwyd yn ail Gynllun Cydraddoldeb Strategol pedair blynedd yr awdurdod (CCS), fel y'i cymeradwywyd gan y Cyngor ar 3 Mawrth 2016.

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad a chynigodd i'r cynllun gael ei fabwysiadu gan y Cyngor, eiliodd y Cynghorydd Mayer.

Croesawodd y Cynghorydd K Thomas yr adroddiad, a theimlai ei fod wedi'i gyflwyno'n dda iawn, ac roedd yn falch o weld y pwyntiau gweithredu yn y cynllun yr ymdriniwyd â hwy.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Hughes at Ssafonau'r Gymraeg a chroesawodd y gwaith caled a wnaed gan y swyddogion, yn enwedig ar y cydweithio gyda'r tîm cydraddoldebau.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Giles gynllun gweithredu ynghyd â'r gwaith gwych gyda Chyngor Ieuenctid Casnewydd, a addawodd geisio barn pobl ifanc ar bolisïau'r Cyngor. Roedd NEETS hefyd wedi cael effaith sylweddol dros y pum mlynedd diwethaf gyda gostyngiad o 4.7% i 1.1% mewn pobl ifanc nad oeddent yn gweithio, ac roedd hyn yn is na chyfartaledd Cymru am y drydedd flwyddyn yn olynol.

Diolchodd y Cynghorydd Cockeram i'r swyddogion a oedd wedi gweithio'n hynod o galed am eu hadroddiad rhagorol a chyfeiriodd at y tîm cymorth a gefnogodd 6000 o bobl i gynnal tenantiaeth o fewn Casnewydd. Roedd y rhain yn ystadegyn ardderchog, a diolchwyd i'r tîm unwaith eto.

**Penderfynwyd**
fod y Cyngor yn unfrydol gymeradwyo'r adroddiad monitro terfynol i'w gyhoeddi ar wefan y Cyngor, yn unol â therfynau amser statudol.

6. **Adroddiad Blynyddol Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd - 2018/19**

Roedd **Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011** yn ei gwneud yn ofynnol i bob cyngor sefydlu Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd. Roedd y Mesur yn rhagnodi swyddogaethau'r pwyllgor ac yn ei gwneud yn ofynnol iddo lunio adroddiad o leiaf bob blwyddyn i'r Cyngor.

Cyflwynodd Cadeirydd y Pwyllgor yr adroddiad ac amlinellodd y gwaith a wnaed gan y Pwyllgor am y flwyddyn. Nodwyd bod Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd yn cytuno ar yr adroddiad blynyddol sydd ynghlwm fel Atodiad A ar 24 Hydref 2019.

Yn ogystal, Atodiad B oedd adroddiad blynyddol Pennaeth y Gyfraith a Rheoleiddio, ar ran Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd, a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ar 24 Hydref 2019 er mwyn adolygu digonolrwydd y staff i gefnogi'r aelodau.

Cynigiodd y Cynghorydd Fouweather yr adroddiad, a eiliwyd gan y Cynghorydd H Thomas.

Cyfeiriodd y Cynghorydd M Evans at eitem y Llywydd, a aeth gerbron y Pwyllgor ar 24 Hydref 2019. Dywedodd y Swyddog Monitro y câi'r cofnodion eu cyflwyno i'r Cyngor yn dilyn y gymeradwyaeth yn y cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Hourahine at y Newidiadau i'r Comisiwn Ffiniau. Dywedodd y Swyddog Monitro y byddai mwy o wybodaeth am hyn yn y flwyddyn newydd.

**Penderfynwyd**
- fod y Cyngor yn unfrydol dderbyn adroddiad blynyddol y Pwyllgor i'r Cyngor er mwyn cwrdd â gofynion y Mesur Llywodraeth Leol, fel y'i cyflwynwyd gan Gadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd.

- Nododd y Cyngor gynnwys Adroddiad Blynyddol Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd, fel tystiolaeth ategol fod y Pwyllgor wedi cyflawni ei gyfrifoldeb i adolygu digonolrwydd staff i gefnogi aelodau

7. **Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau - 2018/19**

Yr Adroddiad a gyflwynwyd i'r Cyngor yw pumed Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau ar gyfer 2017/18. Rhoddodd yr Adroddiad Blynyddol wybodaeth i'r Cyngor am y gwaith a wnaed gan y Pwyllgor yn ystod y 12 mis blaenorol, gan nodi unrhyw faterion penodol a gododd.

Cyflwynodd y Cynghorydd H Thomas yr adroddiad blynyddol ar ran y Cadeirydd Safonau.

Cynigiodd y Cynghorydd H Thomas adroddiad, a eiliwyd gan y Cynghorydd Hourahine. Diolchodd y Cynghorydd Hourahine hefyd i Mr P Westwood am gadeirio'r Pwyllgor Safonau.

**Penderfynwyd**
Fod y Cyngor yn unfrydol dderbyn Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau ar gyfer 2017/18 a nodi'r flaenraglen waith.

8. **Cwestiynau i Arweinydd y Cyngor**

Rhoddodd yr Arweinydd y cyhoeddiadau canlynol, cyn bwrw ymlaen â chwestiynau:

Manteisiodd yr Arweinydd Newydd ar y cyfle i ddiolch i'r Farwnes Wilcox a'i chydweithwyr am eu cefnogaeth yn ystod yr enwebiad am yr Arweinyddiaeth. Diolchodd yr Arweinydd hefyd i'w theulu, a chymuned Malpas am eu cefnogaeth, oedd yn golygu llawer, yn enwedig gan ei bod yn breswylydd yng Nghasnewydd, a aned ym Malpas.

Enwodd yr Arweinydd dri unigolyn yn arbennig, gan gynnwys ei thad, David Taylor a Ron Jones.

Parhaodd yr Arweinydd i annerch y Cyngor gan sôn am y cyfnod anodd a heriol a wynebai'r Cyngor a'r angen i gydweithio.

**Cwestiynau i'r Arweinydd**

Diolchodd y Cynghorydd M Evans i'r Arweinydd a pharhau gyda'i gwestiwn mewn perthynas â chynigion y gyllideb, gan ofyn i'r Arweinydd ymestyn y cyfnod ymgynghori, gan fod Cyngor Caerffili wedi dechrau ar eu cyfnod ymgynghori lawer ynghynt. Yn ogystal â hyn, ar wahân i unrhyw gynnydd mewn chwyddiant, awgrymwyd y byddai cynnydd yn y dreth gyngor yn cael ei rewi i'r Cyngor hwnnw.

Ni allai'r Arweinydd roi sylwadau ar weithgareddau awdurdodau eraill a dywedodd fod swyddogion yn dal i ddatblygu cynigion ynghylch y gyllideb ddrafft. Felly, ni fyddai'n briodol iddi roi sylwadau ar hyn o bryd.

Gwahoddwyd y Cynghorydd M Evans i ofyn cwestiwn atodol, lle ailadroddodd ei fod yn gobeithio er lles trigolion Casnewydd y byddai'r unig gynnydd i'r dreth gyngor yn adlewyrchu cyfradd chwyddiant heb ddim cynnydd pellach gan y Cyngor.

Llongyfarchodd y Cynghorydd Whitehead yr Arweinydd Newydd ar ei phenodiad a chyfeiriodd at yr ymddygiad gwrthgymdeithasol yn y Betws a'r diffyg darpariaeth ar gyfer ieuenctid a phlant, megis clybiau ieuenctid.

Roedd yr Arweinydd yn ymwybodol o'r heriau a wynebir gan ieuenctid ar draws y ddinas. Roedd gwasanaeth ieuenctid symudol ar waith ac roedd y cyfraniad gan wirfoddolwyr ledled y ddinas yn cael ei werthfawrogi, gan gynnwys cymorth y Cynghorydd Cleverly. Roedd cynllun yn Ysgol Uwchradd Casnewydd lle bu cyn-gapten Newport County, David Pike yn gweithio gyda phobl ifanc i fagu hyder a hunan-barch. Byddai'r Arweinydd yn fwy na pharod i siarad yn fanwl â'r cynghorydd Whitehead am y mater hwn, os hoffai wneud apwyntiad.

Gofynnodd y Cynghorydd C Townsend a oedd diweddariad ar seminar pob Aelod ar sbwriel a glanhau strydoedd fel y trafodwyd yng Nghyngor mis Gorffennaf. Roedd llawer iawn o sbwriel a thipio anghyfreithlon o hyd yng nghanol y ddinas ac ni allai un ward honni ei bod yn rhydd o sbwriel ac roedd yn berygl i iechyd y cyhoedd.

Roedd yr Arweinydd yn cydnabod ei fod yn gwestiwn pwysig a byddai'n trefnu seminar i bob aelod yn y dyfodol agos. Soniodd yr Arweinydd hefyd y byddai'n esgeulus iddi beidio â chydnabod gwirfoddolwyr sy'n helpu i gadw Casnewydd yn daclus, gan gynnwys y Cynghorydd Forsey a'r Cynghorydd M Evans. Roedd ffactorau hylendid yn bwysig iawn ac roedd angen i bob aelod fod yn ymwybodol o'r holl weithgareddau.

Gofynnodd y Cynghorydd Hughes am ddiweddariad ar adfywio ar draws y ddinas.

Tynnodd yr Arweinydd sylw at gynnydd rhai o'r prosiectau ar draws y ddinas, gan gynnwys datblygiad Commercial Street gan Pobl, a oedd yn cael ei ddatblygu'n benodol ar gyfer rhai dros 55 oed, ac a oedd yn trawsnewid golwg yr ardal. Roedd dyluniad yr adeilad yn eiconig ac roedd yr Arweinydd wedi derbyn llawer o sylwadau cadarnhaol. Roedd y prosiect yn cyfrannu at adfywio Canol y Ddinas, gan ei wneud yn fan lle roedd pobl am fyw a hybu economi'r dydd a'r nos. Roedd yr hen Adeilad IAC ar y trywydd iawn i'w gwblhau yng ngwanwyn 2020. Yr oedd hen Dŵr y Siartwyr bron â bod yn gyflawn yn ei drawsnewid yn westy pedair seren, yn ddiweddar roedd yr Arweinydd wedi ymweld â'r adeilad, a oedd yn brolio golygfeydd godidog o'r Ddinas. Roedd y prosiectau adfywio yng Nghasnewydd yn araf arwain at drawsnewidiad cadarnhaol i Ganol y Ddinas a'r amgylchedd cyfagos. Roedd prosiect adfywio Arcêd y Farchnad hefyd ar y gweill gyda chyllid gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri a Llywodraeth Cymru. Yr oedd gan Arcêd y Farchnad fusnes annibynnol yn yr ardal honno, a gyfrannodd at economi'r nos. Cafwyd arian hefyd gan linyn thematig Llywodraeth Cymru o'r cynllun ariannu triphlyg i helpu perchenogion i adfywio eu ffasadau. Helpodd y prosiectau hyn i greu'r awyrgylch bywiog a ffyniannus ar draws Casnewydd. Roedd yr Arweinydd yn hapus iawn gyda chynnydd y cynlluniau ac yn edrych ymlaen at ddod â mwy o brosiectau i'r Cyngor maes o law.

9. **Cwestiynau i Aelodau'r Cabinet**

**i. Yr Aelod Cabinet dros Addysg a Sgiliau**

Gofynnodd y Cynghorydd J Watkins y cwestiwn canlynol a gyflwynwyd o flaen llaw:

*'A all yr Aelod Cabinet ddatgelu cyfanswm tanwariant cyffredinol y Cyngor o'r flwyddyn ariannol ddiwethaf ac a wariwyd unrhyw swm o'r tanwariant hwnnw ar wasanaethau Addysgol Casnewydd'*

Ymatebodd yr Aelod Cabinet dros Addysg a Sgiliau:

Aeth sefyllfa Alldro Refeniw y Cynghorau i'r Cabinet ar 22 Mai ac felly mae'r wybodaeth hon wedi bod ar gael i'r cyhoedd ers cryn amser.

Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol 2018/19 cafwyd tanwariant o £ 2,383k ar refeniw. Cytunodd y Cabinet ar un ar ddeg o feysydd buddsoddi. O'r tanwariant hwn, defnyddiwyd £250k at ddibenion addysg.

Cwestiwn atodol:

Y gorwariant a ragwelwyd ar gyfer ysgolion yng nghyllideb eleni oedd tua £2.6M ac amcangyfrifwyd bod y cronfeydd wrth gefn am fod yn £2.75M. A oedd yr Aelod Cabinet, felly, yn teimlo y gallai'r tanwariant y llynedd fod wedi helpu ysgolion i ddatrys eu dyled yn hytrach na gwario ar brosiectau wrth gefn.

Cynghorodd yr Aelod Cabinet y byddai angen cyfeirio'r cwestiwn hwn at y Prif Weithredwr neu'r Pennaeth Cyllid gan y byddai'n gallu rhoi ymateb manylach.

**ii. Gofynnodd y Cynghorydd Joan Watkins y cwestiwn canlynol a gyflwynwyd o flaen llaw:**

*'A yw'r Aelod Cabinet yn teimlo bod Ysgolion Uwchradd Casnewydd wedi'u staffio'n ddigonol gan ddigon o athrawon? '*

Ymatebodd yr Aelod Cabinet dros Addysg a Sgiliau:

Mae Cyrff Llywodraethu Unigol yn rheoli cyllidebau dirprwyedig ysgolion uwchradd ac yn gyfrifol am bennu strwythur staffio priodol yn unol â'r Ddogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol.

Mae hyn felly y tu allan i'm cylch gorchwyl fel yr Aelod Cabinet dros Addysg a Sgiliau.

Atodol:

Codwyd hyn am fod un ysgol yng Nghasnewydd wedi gostyngiad o 10 aelod staff, ac nid oedd y cwbl wedi cael eu disodli gan athrawon cyflenwi.

Ailadroddodd yr Aelod Cabinet mai penderfyniad y cyrff llywodraethu oed hyn ac nid yr Aelod Cabinet neu'r Cyngor.

**iii. Yr Aelod Cabinet dros Ddiwylliant a Hamdden**

Nid oedd y Cynghorydd Ray Mogford yn bresennol fodd bynnag, cofnodwyd y cwestiwn a'r ymateb fel a ganlyn:

*'A yw'r Aelod Cabinet dros hamdden yn credu y bydd y cynllun beiciau pedal newydd ym Mharc Tredegar yn werth da am arian'.*

Ymatebodd yr Aelod Cabinet dros Ddiwylliant a Hamdden:

Ydy - mae'r cynllun yn rhoi gwerth am arian, gan ei fod yn cynnig tegwch drwy alluogi plant ac oedolion i gymryd rhan mewn gweithgaredd corfforol gyda'u ffrindiau a'u teuluoedd. Mae'n galluogi mynediad cyfartal, gan helpu i weddnewid bywydau drwy chwaraeon ar gyfer pob oedran a gallu. Fel yr hyrwyddir gan Chwaraeon Anabledd Cymru, mae'r cynllun beicio yn hwyluso 'chwaraeon i bawb' drwy gefnogi amrywiaeth mewn hamdden, caniatáu i blant a'u teuluoedd neu eu gofalwyr, fwynhau gweithgaredd hamdden gyda'i gilydd, na fyddai'n bosibl o fewn lleoliad chwaraeon safonol.

10. **Pwyllgor Safonau Cofnodion**

Nodwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd rhwng mis Ebrill a mis Gorffennaf 2019.

11. **Dyddiad y Cyfarfod Nesaf**

Dydd Mawrth 28 Tachwedd am 5pm yn Siambrau'r Cyngor.

Daeth y cyfarfod I ben am 6.50 pm